OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 295

## Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019

**Cwmpas ymchwiliadau cyhoeddus pan fo un neu ragor o awdurdodau cynllunio perthnasol**

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) ymchwiliad cyhoeddus i'w gynnal yn unol â rheoliad 9(1) neu 10; a

(b) y cais yn ymwneud â lle y mae rhan ohono yn ardal un neu ragor o awdurdodau cynllunio perthnasol.

(2) Ac eithrio i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo fel arall, rhaid cyfyngu ymchwiliad a gynhelir o dan reoliad 9(1) i hynny o'r cais sy'n ymwneud â thir o fewn ardal yr awdurdod sydd wedi gwneud gwrthwynebiad.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i wrthwynebiadau a wneir ac eithrio gan yr awdurdod o dan sylw wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd o dan baragraff (2) ac wrth benderfynu (pan fônt yn rhoi un) pa gyfarwyddyd i'w roi.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y caniateir cynnal ymchwiliadau ar wahân mewn perthynas ag unrhyw un neu bob un o'r canlynol—

(a) hynny o'r cais sy'n ymwneud â thir o fewn ardal awdurdod cynllunio perthnasol penodol;

(b) hynny o'r cais sy'n ymwneud â rhywle nad yw o fewn ardal awdurdod cynllunio perthnasol.

(5) At ddibenion paragraff (2) mae awdurdod cynllunio sydd wedi gwneud gwrthwynebiad i'w drin fel pe na bai wedi gwneud hynny os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau neu amodau sy'n bodloni'r gwrthwynebiad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 11 mewn grym ar 1.4.2019, gweler **rhl. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019, Adran 11.